# GRENFELL: COFIO, MYFYRIO, MYNNU CYFIAWNDER

Sut gallwch chi weithredu

Collwyd 72 o fywydau. Effeithiwyd ar filoedd eraill ledled y wlad. A gallai ddigwydd eto. Brwydr ar gyfer y 72 o bobl a fu farw yn Grenfell yw hon. Ar gyfer pob preswylydd sy'n byw mewn cartref anniogel, pob person sy'n cael eu hanwybyddu pan fyddan nhw'n codi llais, a phob teulu galarus sy'n dal i aros am gyfiawnder.

---

## Y FFILM

Lladdodd y tân ar 14 Mehefin 2017 yn Nhŵr Grenfell 72 o bobl a gadael goroeswyr a galarwyr yn brwydro am gyfiawnder byth ers hynny.

Mae'r artist a'r gwneuthurwr ffilm Steve McQueen wedi creu gwaith celf mewn ymateb i'r tân. Mae'r ffilm yn destament i'r 72 o bobl a fu farw, yn neges noeth sy'n atgoffa am drasiedi ataliadwy, ac yn alwad i weithredu.

Mae'r ffilm yma'n cyfleu'r creithiau corfforol ac emosiynol a adawyd gan y drychineb.

Ond nid rhywbeth o'r gorffennol yw Grenfell – mae'n ymwneud â'r presennol a'r dyfodol.

I gael rhagor o wybodaeth am y ffilm, ewch i https://grenfell.film/

---

## BETH DDIGWYDDODD

Ychydig cyn 01:00 ar 14 Mehefin, dechreuodd tân yng nghegin fflat ar bedwerydd llawr y bloc tŵr 24 llawr yng Ngogledd Kensington, Gorllewin Llundain.

Ymhen munudau, roedd y tân wedi rhuthro i fyny ochr allanol yr adeilad ac wedi lledu dros y pedair ochr. Erbyn 03:00, roedd y rhan fwyaf o'r lloriau uchaf yn wenfflam. Bu saith deg a dau o bobl farw.

Ond nid damwain oedd hyn. Roedd y methiannau a arweiniodd at y noson honno yn gyfres o sawl twyll crefftus, cuddiedig a hirfaith a gafodd eu gadael i waethygu am flynyddoedd.

Rhybuddiodd trigolion am y risgiau, ond anwybyddwyd eu lleisiau. Defnyddiwyd cladin fflamadwy a deunyddiau adeiladu peryglus, gan wybod y peryglon. Methodd polisïau gwacáu'r adeilad yn drychinebus.

Nid hanes un adeilad neu un gymuned yw Grenfell — mae'n ymwneud â system sy'n rhoi elw o flaen pobl. System a adeiladwyd gan y llywodraeth sy'n methu ag amddiffyn ei phobl fwyaf bregus.




Jeremy Selwyn

---

## NID DIM OND HANES YW GRENFELL – MAE'N DIGWYDD NAWR

**Mae Miloedd o Bobl yn Dal i Fyw mewn Cartrefi Anniogel**
Mae dros 10,000 o adeiladau yng ngwledydd Prydain yn dal i fod wedi'u gorchuddio mewn cladin peryglus, ac mae tenantiaid tai cymdeithasol yn talu'r pris am y gwaith adfer.

**Mae preswylwyr Tai Cymdeithasol yn dal i gael eu trin ag esgeulustod a dirmyg.**

**Nid yw'r llywodraeth wedi gweithredu holl argymhellion Ymchwiliad Cam 1 Grenfell.**
Mae Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEPs) – fyddai'n achubiaeth i drigolion anabl – wedi cael eu gwanhau gan y llywodraeth newydd.

**Does neb wedi'u dal i gyfrif yn droseddol.**

## YMCHWILIAD CYHOEDDUS TŴR GRENFELL

Cafodd Ymchwiliad Tŵr Grenfell ei orchymyn gan y Prif Weinidog Theresa May y diwrnod wedi'r tân "er mwyn sefydlu ffeithiau ynghylch yr hyn ddigwyddodd i gymryd y camau angenrheidiol i atal trasiedi debyg rhag digwydd eto".

Mae'r Ymchwiliad wedi'i rannu'n ddau gam: Cam 1, a oedd yn mynd i'r afael â'r digwyddiadau ar noson y tân, a Cham 2, a oedd yn ymchwilio i'r gyfres o ddigwyddiadau cyn y tân a'r canlyniadau.

Cyhoeddodd yr Ymchwiliad ei ail adroddiad, a'r un terfynol, ar 4 Medi 2024. Mae adroddiad yr ymchwiliad cyhoeddus chwe blynedd, sy'n 1,700 o dudalennau, **"yn nodi sut mae cadwyn o fethiannau ar draws y llywodraeth a'r sector preifat wedi arwain at wneud Tŵr Grenfell yn beryg bywyd".**

Yn yr adroddiad hwn, canfu'r Barnwr Syr Martin Moore-Bick fod **"modd osgoi pob un farwolaeth".**

Bod Kingspan yn gwybod bod ei inswleiddio'n gweithredu fel **"tân cynddeiriog"** ond fe'i gwerthodd beth bynnag.

Bod Rydon wedi dewis **elw dros ddiogelwch tân.** Bod EXOVA yn gwybod bod y gwaith adnewyddu, yn eu geiriau nhw, yn gwneud y **"cyflwr ofnadwy yn waeth".**

Bod Cyngor Kensington a Chelsea wedi **gwrthod buddsoddi yn Nhŵr Grenfell am dros 30 mlynedd.**

A phan wnaethon nhw, eu bod wedi'i **orchuddio mewn cladin fflamadwy rhad.**

Bod y sefydliad rheoli tenantiaid wedi anwybyddu pryderon y trigolion ynghylch diogelwch tân, gan ddweud **"gadewch i ni obeithio y bydd ein lwc yn parhau ac na fydd tân".**

Bod staff Celotex wedi cael eu gorfodi i **"ddweud celwydd er budd masnachol"** ac wedi disgrifio'r cwmni fel **"twyll ar y farchnad".**

Nad oedd cynlluniau gwacáu adeilad ar gyfer trigolion â phroblemau symudedd. **Roedd 15 o'r 72 dioddefwr a fu farw yn anabl.**

Bod gweithwyr Kingspan wedi cyfaddef mai **"dim ond dweud celwyddau rydyn ni'n ei wneud yma".**

Bod Arconic wedi gwerthu cladin roedden nhw'n gwybod a oedd yn llosgi **ddeg gwaith** yn fwy ffyrnig na chladin arall, ond wedi cuddio hynny.

Ac yn 2007, bod un o'r rheolwyr wedi **rhagfynegi tân a fyddai'n lladd "60 neu 70 o bobl".**

**Yr holl dystiolaeth yma. Dim datrysiad.
Dim gweithredu. Dim cyfiawnder.**

---

## EIN HYMGYRCHOEDD

**Atebolrwydd Troseddol**
Mae'n rhaid erlyn y rhai sy'n gyfrifol am Grenfell.

**Gweithredu Argymhellion Ymchwiliad Grenfell Cam 1 a Cham 2 yn llawn**
Dim mwy o oedi. Dim mwy o esgusodion.

**Cartrefi Diogel i Bawb**
Rhaid i'r llywodraeth adfer pob adeilad peryglus.
Rhaid diwygio'r system tai cymdeithasol i sicrhau bod trigolion yn cael eu trin ag urddas a pharch.

**Rhaid i'r Llywodraeth wahardd cwmnïau sy'n destun ymchwiliad troseddol o gontractau cyhoeddus**
Ni all Kingspan, Arconic, Rydon na Celotex elwa ar gynlluniau newydd y llywodraeth i adeiladu mwy o dai. Rhaid eu gwahardd rhag pob contract cyhoeddus.

**Darllen pellach**
*Show Me The Bodies, gan Peter Apps*
*Podlediad BBC Radio 4, Grenfell: Building a disaster*

**Mecanwaith Goruchwylio Cenedlaethol**
Rhaid i'r Llywodraeth fabwysiadu corff annibynnol newydd i fonitro argymhellion sy'n deillio o farwolaethau sy'n ymwneud â'r wladwriaeth, atal trasiedïau yn y dyfodol, a dwyn y rhai sydd mewn grym i gyfrif.

**Deddf Hillsborough**
Rhaid i'r llywodraeth basio Deddf Hillsborough yn ei chyfanrwydd i droseddoli dweud celwyddau wrth y cyhoedd ym Mhrydain, a chefnogi'r rhai sy'n ymladd dros y gwir.

### BETH ALLWCH CHI EI WNEUD?

**Ysgrifennu at eich Aelod Seneddol.** Dywedwch wrthyn nhw am gefnogi gweithredu argymhellion Ymchwiliad Grenfell yn llawn ac am ein hymgyrchoedd eraill.

**Rhannu'r straeon**. Siaradwch â'ch teulu, eich ffrindiau a'ch cymuned am yr hyn ddigwyddodd. Heriwch gamwybodaeth – nid damwain oedd hyn.

**Ymunwch â'r Mudiad
a sganiwch y Cod QR er mwyn:**
Cofrestru ar gyfer Gorymdaith Fud ar **14/06/25**
Cael diweddariadau am ein hymgyrchoedd.

GRENFELL UNITED